# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 5 - Gwynedd Amdani | 8 |
| 6 - Meddylfryd Systemau | 10 |
| 7 - Taith Drawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn | 15 |
| 8 - Briff ar gyfer yr Ymchwiliad Craffu Cynllun Datblygu Lleol - Cydweithio | 20 |

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30AM, DYDD IAU, 11 MEDI, 2014**
**10.30AM, THURSDAY, 11 SEPTEMBER, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA,**
**SWYDDFA'R CYNGOR / COUNCIL OFFICES,**
**STRYD Y JÊL / SHIREHALL STREET,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 4/09/14)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)
Y Cynghorwyr / Councillors

Elwyn Edwards
Aled Evans
Selwyn Griffiths
Sian Gwenllian
Dyfrig Jones
Dafydd Meurig
Michael Sol Owen
Mair Rowlands
Gethin Glyn Williams

### Annibynnol / Independent (4)
Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Trevor Edwards
Eryl Jones-Williams
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)
Y Cynghorwyr / Councillors

Gweno Glyn
Simon Glyn
Jason Humphreys

### Llafur / Labour (1)
Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)
Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Aelodau eraill a wahoddir / Other invited members
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins – eitemau / items 5 a / and 6

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Mehefin, 2014 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

*Noder – amcan yn unig yw’r amseroedd a nodir isod*

**5. GWYNEDD AMDANI**
**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (ynghlwm).

*10.40am – 11.25am*

**6. MEDDYLFRYD SYSTEMAU**
**Aelod Cabinet – y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (ynghlwm).

*11.25am – 12.10pm*

**7. TAITH DRAWSNEWID BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN**
**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Ystyried adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

*12.10pm – 12.40pm*

## 8. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - CYDWEITHIO

Cyflwyno briff yr ymchwiliad  (ynghlwm).

*12.40pm – 12.55pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 5.06.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Jason Humphreys (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Aled Evans, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Charles W.Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Mair Rowlands ac Eirwyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Sian Griffiths (Rheolwr Cefnogi Newid), Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu), Ann Roberts (Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Simon Glyn a June Marshall.

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dyfrig Jones yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2014/15.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Jason Humphreys yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2014/15.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mawrth, 2014 fel rhai cywir.

## 5. YMCHWILIAD CRAFFU AGENDA WLEDIG
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Cadarnhaodd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu fod yr Arweinydd yn derbyn argymhellion yr ymchwiliad a'i fod am weithredu arnynt drwy banel gan gyflwyno adroddiad cynnydd i'r pwyllgor ymhen 6-9 mis.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Arweinydd adrodd yn ôl ymhen 6 mis.**

## 6. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Cadarnhaodd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu fod yr Aelod Cabinet Economi yn derbyn argymhellion yr ymchwiliad gan gyflwyno adroddiad cynnydd i'r pwyllgor ymhen 6-9 mis.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Aelod Cabinet Economi adrodd yn ôl ymhen 6 mis.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.05am.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **Dyddiad** | **Medi 11eg 2014** |
| **Eitem** | **Gwynedd Amdani** |
| **Awdur** | **Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau** |
| **Prif faterion sydd angen sylw gan yr Aelodau** | **Bwriad yr eitem craffu yma yw derbyn diweddariad o gynlluniau'r Cyngor i arwain ar drefniant i gaffael ynni yn rhatach ar gyfer cymunedau'r sir, a/neu i hwyluso a hyrwyddo'r cynllun Cyd Cymru â'r buddiannau ynghlwm ag ef i drigolion y sir.** |

**1.0 Cyd-destyn**

Mae'r Cynllun Cyd-brynu Ynni (a drafodir o dan yr enw 'Gwynedd Amdani' gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol) yn rhan o brosiect Cyngor Ni sydd yn rhan o raglen Ffordd Gwynedd – Rheoli'r Galw. Caiff Rhaglen Ffordd Gwynedd – Rheoli'r Galw sylw yn y Cynllun Strategol ym mlaenoriaeth 4, maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor.

Bwriad "Cyngor Ni" ydi manteisio ar faint y Cyngor er budd i bobl Gwynedd gan wella delwedd y Cyngor ymysg dinasyddion Gwynedd. Mae'r prosiect yn ystyried rhestr hir o syniadau gan ddatblygu unrhyw syniadau sy'n cyrraedd gofynion matrics meini prawf y prosiect.

Mae Cyd-brynu ynni yn un o'r cynlluniau o fewn Prosiect Cyngor Ni.

**2.0 Cynllun Cyd-brynu Ynni**

Yn unol a threfn "Cyngor Ni" ac yn dilyn ystyried achos busnes amlinellol yn trafod syniadau ar sut i hyrwyddo newid cyflenwyr ynni / cyd-brynu ynni daeth grŵp prosiect at ei gilydd ym mis Ionawr 2014 i drafod a chynllunio i hyrwyddo cynllun Cyd Cymru – cynllun cyd brynu ynni ar draws Cymru wedi ei arwain gan Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ac wedi ei weithredu gan yr *Energy Saving Trust*.

Roedd y grŵp prosiect yn cynnwys yr Aelod Cabinet Adnoddau a nifer o swyddogion y Cyngor. Yn dilyn trafod penderfynwyd cael mwy o wybodaeth gan Cyd Cymru ar gyfnod cyntaf y cynllun er mwyn sicrhau bod hwn yn gynllun addas i gyfeirio trigolion Gwynedd tuag ato. Bu'n anodd cael gwybodaeth gan yr ymgyrch, roedd yr hyn a dderbyniwyd yn anfoddhaol ac wedi cymryd peth amser i ddod i'n dwylo.

Nodwyd y canlynol:

- Pryder nad oedd data ar gael ar faint yr arbediad i bob cartref a'r nifer oedd wedi cofrestru
- Pryder bod 5,000 (y nifer wnaeth gymryd rhan ar draws Cymru yn yr rownd gyntaf) yn ymddangos yn nifer fychan yn "switsio" a bydd yn annhebygol bydd cwmnïau ynni yn cynnig arbedion mawr
- Bydd yn anodd iawn bellach i Gyngor Gwynedd lwyddo i arwyddo'r siarter a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o werth oherwydd diffyg amser

Daethpwyd i'r casgliad:

- Oherwydd y pryderon a'r diffyg amser cyn i'r ail rownd gau argymhellwyd beidio cefnogi'r cynllun ar hyn o bryd
- Pan ddaw mwy o ddata ystyried ail edrych ar y cynllun ac ymuno os bydd trydydd rownd

Roedd yn gynamserol i roi gwybodaeth syml am Cyd Cymru a buddion y cynllun ar wefan y Cyngor ynghyd â dolen i'r ffurflen gofrestru oherwydd y pryderon am y cynllun ac heb i'r cynllun dderbyn cefnogaeth y Cyngor.

Gohebwyd gyda Cyd Cymru a darganfod bod cynllun Cyd Cymru yn agored i holl drigolion Cymru felly nid oedd angen ystyried unrhyw gynlluniau eraill ar gyfer cwmpasu holl drigolion Gwynedd.

## 3.0 Datblygiadau Diweddar

Mae Cyd Cymru wedi cyhoeddi bydd trydedd cam a cofrestru yn debygol o agor diwedd 2014 neu yn gynnar yn 2015, er hyn nid oes dyddiadau penodol wedi eu cadarnhau. Mae'r opsiwn i gefnogi Cyd Cymru felly dal yn agored. Rydym hefyd, yn ddiweddar, wedi derbyn ystadegau am y ddau gam cyntaf (gweler isod) a bydd angen ystyried yr ystadegau hyn a phenderfynu os byddwn yn cefnogi'r drydedd cam.

| Cam | Dyddiadau Cofrestru | Nifer o gartrefi yn cofrestru | Dyddiadau 'switsio' | Nifer o gartrefi yn 'switsio' | Arbediad blynyddol cartref ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 21/10/13-13/1/14 | 5,373 | 13/1/14-24/1/14 | 861 | |
| **2** | 27/1/14-9/3/14 | 1,963 | 10/3/14-31/3/14 | 674 | |
| **Cyfanswm** | | 6,802 | | | £185 |

## 4.0 Lleihau costau ynni'r Cyngor

Mae Cynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithredu ers peth amser ac bellach wedi gweld lleihad o dros 30% mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu gyda 2005/06. Mae hyn yn arbediad o oddeutu £600,000 y flwyddyn mewn biliau ynni. Ynghyd a hyn mae'r Cyngor yn rhan o grŵp rhanbarthol sy'n cyd-brynu ynni er mwyn sicrhau'r pris rhataf bosib ar y biliau.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 11 MEDI 2014 |
| **TEITL** | MEDDYLFRYD SYSTEMAU |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Peredur Jenkins |
| | |

1. **Cefndir**

**1.1.** Mae'r Pwyllgor Craffu wedi nodi ei ddymuniad i graffu'r diweddaraf gyda meddylfryd systemau gan ofyn i mi ymateb yn benodol i'r cwestiynau a nodir isod.

2. **I ba raddau y mae Meddylfryd Sustemau wedi ymestyn ar draws y Cyngor ?**

2.1. Dechrau mae'r gwaith o ymestyn ar hyn o bryd.

2.2. Bydd aelodau'r Pwyllgor oedd yn rhan o'r adolygiad craffu gwreiddiol yn ymwybodol nad mater o osod proses yn ei le yw "meddylfryd systems" ond mater o sicrhau meddylfryd cyson ymysg holl staff y Cyngor a bod diwylliant a threfniadau gwaith ehangach y Cyngor hefyd yn cefnogi'r meddylfryd hwnnw.

2.3. Bydd y meddylfryd, y diwylliant a'r trefniadau gwaith yma wedyn (o'u gwreiddio ymysg holl staff y Cyngor) yn arwain at arfogi'r staff hynny i ddarganfod datrysiadau i ateb gwir anghenion bobl Gwynedd.

2.4. 'Rydym wedi rhoi'r teitl "Ffordd Gwynedd" ar y casgliad yma o drefniadau gwaith, meddylfryd a diwylliant sef y ffordd y byddwn ni'n sicrhau ein bod yn rhoi bobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, a hwn yw'r cynllun y cyfeirir ato yn DT1 ar dudalen 38 o Gynllun Strategol y Cyngor.

2.5. Er mwyn ymestyn hyn oll ar draws y Cyngor, mae angen sicrhau fod yr elfennau pwysicaf ar gyfer cyflawni hynny yn eu lle cyn dechrau ar y daith (neu fe fyddwn yn cael ein cyhuddo o siarad amdano a dim byd yno i'w gefnogi yn ymarferol). Byddai hynny yn arwain i staff feddwl mai siarad gwag ydyw ac nad ydym o ddifrif amdano. Byddai hyn yn ei dro yn ei gwneud yn amhosibl newid y diwylliant.

2.6. Mae'r gwaith o sicrhau fod yr elfennau cefnogol pwysicaf yn eu lle bellach ar fin cael eu cwblhau, gydag un elfen hanfodol yn cynnwys datblygu rhaglen fewnol (ar ôl dysgu gwersi o'r ddau beilot "meddylfryd systems" a gyflawnwyd) i sicrhau fod cymorth ar gael i dimau gwasanaeth herio'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Rhaglen rhoi Ffordd Gwynedd ar waith fydd hwn.

2.7. Bydd rhediad cyntaf y rhaglen hon yn digwydd ym mis Hydref mewn un gwasanaeth er mwyn caniatáu i ni ei phrofi'n ymarferol cyn ei hallforio'n ehangach i fwy o unedau.

2.8. Bydd dogfen Strategaeth Ffordd Gwynedd yn mynd i'r Cabinet i amlinellu beth sydd dan sylw mewn dogfen ffurfiol i'w chymeradwyo yn yr hydref.

2.9. Bydd y rhai oedd yn bresennol yn y Cyngor pan benodwyd y Darpar Brif Weithredwr ym mis Mai yn cofio iddo gael ei benodi ar sail y weledigaeth o newid diwylliant y Cyngor i un sy'n gyson â meddylfryd systemau, ac mae o eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ymestyn y cysyniad ymysg rheolwyr a staff y Cyngor drwy gynnal cyfres o sesiynau yn ystod Gorffennaf ac Awst.

**3. Pa ymdrechion sydd wedi bod i sicrhau dealltwriaeth yr Aelodau Cabinet ac Uwch Reolwyr o egwyddorion Meddylfryd Systemau? Yn sgil hynny, a oes unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor wedi ei ail-gynllunio er budd y cwsmer?**

3.1. Mae'r Uwch Reolwyr wedi bod yn rhan o'r sesiynau a gynhaliwyd gan y Darpar Brif Weithredwr y cyfeiriwyd atynt uchod a thra bod holl aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o'r hyn sydd dan sylw o ran Cynllun DT1 y Cynllun Strategol byddant yn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd dan sylw wrth gyflwyno'r ddogfen strategol iddynt.

3.2. Yn amlwg, nid oes gwasanaeth wedi ei ail gynllunio eto ond mae'r Cynllun Strategol yn rhagweld y byddwn wedi rhoi cefnogaeth i 7 Tîm i roi egwyddorion Ffordd Gwynedd ar waith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gan gymryd na fyddwn yn dod ar draws mwy o rwystrau 'rwyf yn hyderus y byddwn yn medru gwneud hyn.

3.3. Mae'r pwynt a wneir ynglŷn â'r angen i aelodau fod yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonom yn un pwysig na ddylid ei golli.

3.4. Yn amlwg 'rwyf innau a'r Cynghorydd Ioan Thomas wedi bod yn cadw rheolaeth dros y gwaith o ddatblygu'r gyfundrefn ac yn deall elfennau o beth fydd y gofynion ar staff a rheolwyr ond fe fydd yna ofynion arnom ni hefyd fel aelodau. Ni fyddwn yn gallu newid diwylliant y Cyngor os yw diwylliant yr aelodau yn aros yr un fath.

3.5. 'Rwyf yn trafod ar hyn o bryd gyda swyddogion beth sydd angen ei wneud i sicrhau fod holl aelodau'r Cyngor yn dod i ddeall digon am y cysyniadau y tu ôl i Ffordd Gwynedd er mwyn helpu i atgyfnerthu ein gallu i newid y meddylfryd cyffredinol o fewn y Cyngor.

**4. Pa gefnogaeth sydd ar gael i swyddogion ddarparu'r 'day job' a gweithio ar y cynllun Meddylfryd Systemau ar yr un pryd?**

4.1. Bydd y rhaglen rhoi Ffordd Gwynedd ar waith yn cynnwys yr angen i reolwyr ystyried unrhyw ofynion cario 'mlaen gyda'r "day job" tra bod yr ail ddylunio yn digwydd.

4.2. Ystyrir fod hyn yn rhan greiddiol o unrhyw broses newid ac nid yw'n unigryw i Ffordd Gwynedd yn unig.

4.3. Wrth gwrs, rhaid bod yn fyw i'r ffaith y gallasai hyn olygu o bryd i'w gilydd nad oes modd llenwi'r bwlch yn y tymor byr ac y bydd yn rhaid cyflawni'r "day job" gyda llai o adnoddau am gyfnod tra bydd y tîm sy'n ymgymryd â'r gwaith newid yn gwneud hynny.

4.4. Fe allasai hynny olygu y bydd perfformiad yn gwaethygu felly am gyfnod, ond efallai mai dyna yw'r pris sy'n gorfod cael ei dalu yn y tymor byr er mwyn cael gwell gwasanaeth yn yr hir dymor.

**5. O ddatblygu'r cynllun ar draws y Cyngor, sut y bwriedir taro cydbwysedd rhwng gwneud y gwaith yn fewnol a chael mewnbwn allanol ac annibynnol yn ôl yr angen?**

5.1. Un o'r pethau a ddysgwyd o'r gwaith peilot oedd bod yn rhaid teilwrio'r gyfundrefn derfynol i gyd-fynd a diwylliant penodol Cyngor Gwynedd.

5.2. 'Rydym felly wedi datblygu ein model ein hunain o dan faner Ffordd Gwynedd gan fod hynny hefyd am ein galluogi i ddysgu wrth fynd ymlaen yn hytrach na bod yn ddibynnol ar ymgynghorwyr allanol drud.

5.3. Mae creu rhaglen fewnol a dibynnu ar sgiliau staff sydd gennym yn barod yn mynd i fod lawer mwy cost effeithiol na dibynnu ar ymgynghorwyr allanol.

5.4. Wedi dweud hynny, rhaid i ni beidio â thwyllo ein hunain drwy feddwl ein bod yn mynd i fedru datrys pob problem a ddaw i'n rhan wrth fynd ar hyd y daith yma ac 'rydym yn rhagweld gorfod galw ar ymgynghorwyr allanol am gymorth os byddwn yn dod ar draws rhwystrau nad ydym yn gallu eu datrys yn fewnol.

5.5. 'Rydym ar hyn o bryd yn ystyried hefyd a ddylid cael elfen o asesiad allanol gan ymgynghorwyr ar ein cyfundrefn fewnol rhag ofn ein bod yn methu rhywbeth sylfaenol, ond nid ydym wedi dod i gasgliad ar werth hynny eto.

**6. Ym mha fodd y rhoddir ystyriaeth i sylwadau ac adborth gan gwsmeriaid, a sut eir ati i asesu natur y galw a gwir anghenion y cwsmer? Beth yw barn y cyhoedd, a ydynt yn credu fod meddylfryd systemau yn gweithio?**

6.1. Mae rhan gyntaf y cwestiwn yn rhan annatod o'r gyfundrefn rhoi Ffordd Gwynedd ar waith.

6.2. Byddwn yn dod i wybod yr ateb i'r ail ran unwaith y byddwn wedi ymestyn y cysyniad i fwy o wasanaethau'r Cyngor, ond rhaid gwylio rhag gofyn y cwestiwn anghywir. Yn y pen draw, a yw'r gwasanaeth yn gwella yw'r gwir fesur nid barn y cyhoedd a ydynt yn credu fod meddylfryd systemau yn gweithio. Fe ddylai un arwain at y llall wrth gwrs.

**7. Pa fesuryddion sydd wedi cael eu gosod er mwyn asesu llwyddiannau a phroblemau gyda gweithredu'r cynllun ar draws y Cyngor ac adrodd unrhyw faterion o bryder i'r Cabinet?**

7.1. Y mesuryddion sy'n cyfrif wrth gwrs yw'r mesuryddion hynny sy'n mesur pa mor dda ydan ni am gyflawni'r pwrpas a osodwyd ar gyfer unrhyw dim sy'n gweithredu o fewn y Cyngor.

7.2. Bydd angen sicrhau fod cyfundrefn perfformiad y Cyngor yn dal y mesurau hynny ac yn ein galluogi i adrodd i'r Cabinet drwy'r Aelod Cabinet perthnasol pan aiff pethau o'u lle.

7.3. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i ail edrych ar gyfundrefnau perfformiad y Cyngor fel un elfen bwysig sy'n rhan o'r gwaith o sicrhau fod holl elfennau o ddiwylliant y Cyngor yn cefnogi ein gallu i weithredu ar feddylfryd systemau.

7.4. Mae'r gwaith hwnnw yn digwydd fel rhan o gynllun DT1 y Cynllun Strategol.

**8. Pa waith sydd wedi ei gyflawni i asesu costau'r cynllun er mwyn adnabod beth yw maint y gwariant ac unrhyw arbedion sydd eisoes wedi deillio ohono, a beth yw'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol ?**

8.1. Mae cofnod o gostau sydd ynghlwm a gweithredu Ffordd Gwynedd yn cael eu cadw, a maes o law pan fyddwn wedi ymestyn y cysyniad ar draws y Cyngor rhagwelir y bydd yna arbedion yn deillio drwy beidio â gwneud pethau sydd ddim yn ychwanegu gwerth i bobl Gwynedd.

8.2. Gallwn wedyn ystyried a fu'n llwyddiant ariannol.

8.3. Fodd bynnag rhaid gwylio rhag meddwl mai arf i arbed arian ydyw.

8.4. Hanfod Ffordd Gwynedd yw canolbwyntio ar anghenion bobl Gwynedd a thrwy hynny i sicrhau ein bod yn wirioneddol cwrdd ag anghenion bobl Gwynedd.

8.5. Fe fydd yna arbedion yn deillio heb os, ond gwella ein gallu i gwrdd ag anghenion ein pobl yw'r prif nod.

**9. Beth yw barn arbenigwyr o Ysgol Fusnes Caerdydd e.e. ar ymagwedd y Cyngor at feddylfryd systemau ?**

9.1. Ni wyddom am nad ydym wedi gofyn.

9.2. Byddai gorfod creu dogfennau a thalu am yr asesiad yn tynnu ymdrechion ac adnoddau oddi wrth sicrhau ein bod yn symud ymlaen i newid diwylliant y Cyngor a chreu cyfundrefn fydd yn gwella ansawdd ein gwasanaethau.

9.3. Mae'r hyn sydd mewn golwg yn cyd-fynd â datganiadau a glywyd gan swyddogion yr Ysgol Fusnes pan fuont yma i egluro ym mha ffordd y byddent hwy yn ddelfrydol yn gweithredu ar feddylfryd systems ond nid ydym wedi gofyn iddynt wneud asesiad yn benodol.

9.4. Ar ddiwedd y dydd yr unig ffordd i asesu a yw ein hymagwedd yn iawn yw i weld a fydd yn gwella gwasanaethau ac yn hynny o beth, amser a ddengys.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 18 Medi, 2014 |
| **TEITL** | Taith Drawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Llleol Gwynedd ac Ynys Môn |
| **AWDUR** | Anwen Davies, Uwch Reolwr Partneriaethau (Gwynedd ac Ynys Môn) |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dyfed Wyn Edwards |
| **BETH SYDD ANGEN EI GRAFFU A PHAM:** | 1. Camau cychwynnol yn nhaith drawsnewid y BGLl;<br>2. Y camau nesaf a fwriedir i ddatblygu ymhellach drefniadau craffu aelodau etholedig yng ngwaith y BGLl. |
| **A OES RHYWBETH ARALL SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR CRAFFU EI WNEUD?** | Cyflwynir cynigion ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn ar drefniadau craffu er ystyriaeth gan bwyllgorau craffu aelodau etholedig y ddau Awdurdod Lleol yn yr Hydref/Gaeaf, 2014 |
| **BETH YW'R CAMAU NESAF?** | Trafodaethau gyda chydweithwyr ar Ynys Môn |

## 1. CEFNDIR/CYD-DESTUN

1.1 Daeth cyrff sector cyhoeddus ynghyd i ffurfio Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) ar draws Cymru mewn ymgais i gydlynu a darparu canlyniadau gwell ar y cyd. Bydd Aelodau'n ymwybodol y penderfynwyd sefydlu un Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn a ddaeth i fodolaeth yn Ebrill, 2013;

1.2 Bwrdd strategol lefel uchel yw'r BGLl sydd wedi'i adlewyrchu yn ei aelodaeth o Brif Weithredwyr ac Arweinyddion y prif asiantaethau cyhoeddus. Mae'n gyfrifol am:

- Gytuno ar ganlyniadau i bobl leol a blaenoriaethau strategol lleol ar gyfer gwaith aml-asiantaethol i gefnogi'r agenda ehangach a noder yn y Rhaglen Lywodraethu Genedlaethol ac ymateb i anghenion lleol a adnabuwyd trwy asesiad anghenion lleol, fel y sail i gynllun integredig;
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad priodol ar waith i sicrhau gwelliannau a bod rheolwyr a staff rheng flaen mewn asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol a bod blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau corfforaethol sefydliadau unigol;
- Sicrhau bod strwythurau partneriaethol a strwythurau darparu gwasanaethau'n addas at y diben ac yn atebol;

- Herio lle y ceir tanberfformiad neu laesu dwylo a rhoi newidiadau ar waith sy'n adlewyrchu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella canlyniadau i'r boblogaeth leol;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed a chyflwyno adroddiadau blynyddol arno i'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru, aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd a sefydliadau sy'n aelodau o'r BGLl.

Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw'r bartneriaeth statudol ar gyfer yr holl feysydd o fewn ei faes llafur. Mae yna un eithriad sef Diogelwch Cymunedol sy'n parhau gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

1.3 Er i BGLl fod mewn bodolaeth ers sawl blwyddyn, mae yna farn genedlaethol fod gwaith partneriaethol yn aml wedi'i dan-ddatblygu yn y sector cyhoeddus. Yn aml, gweler partneriaid yn cyfarfod a'i gilydd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ond ychydig iawn o bartneriaethau sydd â ffocws clir ar gyd-ddarparu gwell ganlyniadau. Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau[1] ym 2012 a oedd yn dyfynnu: *"…. to make a difference partnership must mean working together not just talking together. Its focus must be on a shared agenda of better outcomes, placing the emphasis on priorities, pace and performance…."*

'Roedd y Canllawiau hefyd yn adnabod awdurdodau lleol gyda rôl arweiniol clir wrth gefnogi BGLl.

1.4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol[2] wedi cychwyn rhaglen o Asesiadau Corfforaethol sy'n cynnwys thema'n archwilio effeithiolrwydd partneriaethau a chydweithio. Nid oes eto amserlen wedi'i chyhoeddi ar gyfer Asesiad Corfforaethol Gwynedd. Rhaglenwyd y gwaith maes ar gyfer Asesiad Corfforaethol Ynys Môn yn Chwefror, 2015.

1.5 Gwelwyd Swyddfa Archwilio Cymru'n cyhoeddi'n ddiweddar iawn ei bwriad i gwblhau awdit o BGLl/partneriaethau strategol Gwynedd ac Ynys Môn. Nid oes amserlen wedi'i chadarnhau eto ar gyfer y gwaith maes.

## 2. TAITH DRAWSNEWID BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

2.1 Fel y nodwyd uchod, sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn yn Ebrill, 2013 trwy uno ynghyd y ddau BGLl ardal unigol. Gwelwyd yr uno yma hefyd yn cynnwys rhesymoli'r trefniadau ar gyfer partneriaethau strategol ar draws 2 ardal awdurdod lleol i greu un Uned Bartneriaethau integredig wedi'i harwain a lletya gan Gyngor Gwynedd fel gwasanaeth wedi'i rannu ar ran Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn. Daeth yr Uned integredig i fodolaeth yn Rhagfyr, 2012;

2.2 Bu i'r BGLl ar y cyd ganolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd canlynol yn ystod y flwyddyn gyntaf mewn bodolaeth (2013/14):

- Arwain y rhesymoli partneriaethau ar draws ardaloedd y ddau awdurdod lleol er mwyn creu un tîm integredig;
- Dechrau adnabod ei weledigaeth a chyfeiriad fel un grŵp;

---

[1] Shared Purpose, Shared Delivery: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau – Llywodraeth Cymru (Mehefin, 2012)

[2] Archwilydd Cyffredinol – Sefydlwyd Swyddfa Archwilydd Cymru ym 2005 fel yr archwiliwr statudol allanol ar gyfer y rhan helaethaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rôl yn cynnwys archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli a gwario arian cyhoeddus gan gynnwys sut y maent yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd yn flynyddol ar ba mor dda y gwelwyd awdurdodau lleol unigol yn cynllunio ar gyfer gwella.

- Paratoi Cynllun Integredig Sengl drafft;

2.3 **Ffocws cyfredol sy'n esblygu** – mae yna gyfnod o "oedi ac adolygu" ar hyn o bryd o amgylch cyfeiriad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r dyfodol ynghyd â'r Uned Bartneriaethau strategol sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd. Yr elfennau canlynol sy'n cyfrannu at ein gwerthusiad/hadolygiad:

2.3.1 Gwnaed nifer o benderfyniadau arwyddocaol gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn (yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12/03/14) ynglŷn â'i weledigaeth a chyfeiriad strategol i'r dyfodol. Manylir ar y penderfyniadau yma yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn;

2.3.2 Cwblhawyd darn o waith i gymryd stoc o drefniadau partneriaethol Awdurdod Lleol cyfredol (gan ffocysu ar yr uned bartneriaethau strategol gan fwyaf) sydd wedi llywio siwrnai wella i redeg ochr yn ochr â thaith drawsnewid y BGLl. Mae'r prif yrrwr yn ymwneud â sicrhau strwythur a blaenoriaethau cadarn ar gyfer yr uned strategol wrth gefnogi rôl arwain newid y BGLl;

2.3.3 Mae arfarniad nawr yn cymryd lle er mwyn:
- Gwerthuso ein trefniadau partneriaethol strategol cyfredol ynghyd â'r trefniadau llywodraethu a strwythurau oddi tanynt;
- Adnabod nodweddion partneriaethu llwyddiannus cyfredol.

2.3.4 Bydd yr adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o bartneriaethau ar draws Gogledd Cymru a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd a Phrif Weithredwyr hefyd yn llywio ac yn dylanwadu ymhellach ar ein uchelgais a gweledigaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru;

2.3.5 Gweler oblygiadau sylweddol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol, partneriaethau a chydweithio gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (2014) a Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad, bydd rhain yn dylanwadu ar ac yn llywio ein siwrnai drawsnewid a blaenoriaethau dros y cyfnod nesaf.

3. **TAITH DRAWSNEWID 3 CHAM GYCHWYNNOL**

Gwelwyd y BGLl yn mabwysiadu ymagwedd 3 cham gychwynnol i'w daith drawsnewid:

**3.1** **CAM 1 [Mehefin, 2014] –** Sesiwn wedi'i hwyluso'n allanol ar gyfer aelodau'r BGLl ac uwch arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i:
- Ganfod uchelgais a chyfeiriad strategol y BGLl i'r dyfodol;
- Gytuno ar ei brif feysydd blaenoriaeth dros y flwyddyn neu ddwy nesaf;
- Eglurhau rolau a chyfrifoldebau unigol aelodau'r BGLl.

**3.2** **CAM 2 [Hydref, 2014] –** sesiynau thematig wedi'u hwyluso'n allanol i fynegi'r prif flaenoriaethau/risgiau o dan ymbarel y Bwrdd ar gyfer y 1/2 flynedd nesaf:
- Plant a Phobl Ifanc;
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles – pobl hŷn;
- Tlodi/amddifadedd/cymunedau bregus.

**3.3** **CAM 3 [Medi, 2014] –** Cyfarfod llawn o'r BGLl i:
- Gymeradwyo uchelgais, gweledigaeth a chyfeiriad strategol newydd;
- Gadarnhau'r meysydd blaenoriaeth allweddol;
- Gytuno ar strwythurau a threfniadau llywodraethu diwygiedig.

'Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio ar gyfer Cam 2 – sesiynau thematig i fynegi'r prif flaenoriaethau ac yn cwblhau'r trefniadau ar gyfer cyfarfod o'r BGLl ar 26 Medi, 2014.

4. **TUAG AT DREFNIADAU CRAFFU CADARN AC EFFEITHIOL**

4.1 Un o'n meysyd gwaith i'w flaenoriaethu dros y cyfnod nesaf fydd datblygu ymhellach ein trefniadau craffu gan aelodau etholedig o waith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n amserol, yn nhermau taith drawsnewid y BGLl, i ni nawr roi ystyriaeth i sut y gallem ddatblygu ymhellach drefniadau craffu cadarn, yn cynnig lefel briodol o her i'r Bwrdd – a hynny ar y cyd ar draws y ddwy Sir i adlewyrchu mandad y BGLl. Mae Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol 2009 yn gosod allan y disgwyliad sydd arnom: *"…local authorities should have in place effective scrutiny processes to ensure local democratic accountability for partnership actions…"*

4.2 Y cam nesaf fydd cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr ar Ynys Môn gyda golwg ar:

- Atgyfnerthu cytundeb gan y ddau Awdurdod Lleol i drefniadau craffu Aelodau Etholedig ar y cyd o waith y BGLl;
- Negydu rhaglen o themau ar waith y BGLl/Cynllun Integredig Sengl/Partneriaethau Strategol i'w craffu trwy'r trefniadau/broses ar y cyd.

Cyflwynir y cynigion ar y cyd er ystyriaeth gan bwyllgorau craffu aelodau etholedig y ddau Awdurdod Lleol yn yr Hydref/Gaeaf, 2014.

5. **ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol:

**R1** Nodi cynnwys yr adroddiad – yn enwedig gwaith trawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn;

**R2** Ffurfio barn ynglŷn â'r camau gweithredu nesaf a fwriedir er mwyn datblygu ymhellach ein trefniadau craffu aelodau etholedig o waith y BGLl.

**ATODIAD 1**

## PENDERFYNIADAU BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN [12/03/14]

1. Datblygu uchelgais newydd dros y misoedd nesaf sy'n rhoi goel uwch na'r gorffennol ar lenwi'r bwlch cyllido gwasanaethau cyhoeddus – trwy sicrhau mwy o gydlynu a ffocws o amgylch rheoli galw (gwella systemau gwasanaethau cyhoeddus i leihau galw sy'n methu) a chyflwyno rhaglen o ymyrraethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad sy'n gyrru galw (cyd-ddylunio a chynhyrchu);
2. Cyfeiriad strategol sy'n ceisio cydbwysedd priodol rhwng:
    - Rheoli galw/gwariant yn effeithiol yn y tymor byr;
    - Ymyrraethau aml-asiantaethol effeithiol gydag effaith tymor canol/hir ar alwadau/wariant/penderfynyddion gwasanaeth;
    - Datblygiadau wedi'u gyrru gan arian grant penodol, cenedlaethol (diogelwch cymunedol/plant a phobl ifanc yn benodol); AC
    - Ymateb priodol a chymesur yng Ngwynedd ac Ynys Môn i ddisgwyliadau canllawiau Llywodraeth Cymru ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau[3] (*Shared Purpose, Shared Delivery).*
3. Blaenoriaethu nifer bychain o ffrydiau gwaith allweddol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf a fydd yn galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni cynnydd wedi'i dystioli yn erbyn ei uchelgais esblygol;
4. Cynnal sesiwn wedi'i hwyluso'n allanol i fynegi ac eglurhau uchelgais, gweledigaeth a chyfeiriad y Bwrdd ynghŷd â blaenoriaethu ei brif feysydd datblygu

[3] Shared Purpose, Shared Delivery: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau – Llywodraeth Cymru (Mehefin, 2012)

**Cynllun Datblygu Lleol - Cydweithio**

**Fersiwn 1.00 o'r Sgôp**

**Cefndir**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 27 Mawrth 2014 ar gydweithio / dyfodol gwasanaethau cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymateb y Cyngor i adroddiad Comisiwn Williams.

Mae Adroddiad Williams yn ddogfen o sylwedd, sydd yn cynnwys dadansoddiad thematig o'r heriau y mae'r sector gyhoeddus yn ei wynebu o ran delio â gwendidau'r cyfundrefnau presennol a pharodrwydd i wynebu'r hyn a ddaw.

Mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu rhyw gymaint gan y maes llafur a roddwyd iddo ond mae'n cynnig dadansoddiad o sefyllfa gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r angen i newid i'r dyfodol.

Ar 8 Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol, sydd yn amlinellu datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â dyfodol Llywodraeth Leol, a'r weledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru sydd yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif a thu hwnt.

**Pwrpas yr Ymchwiliad**

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu fydd ystyried cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer uno Awdurdodau Lleol, gan sylfaenu'r ymchwiliad ar yr enghraifft diweddar o uno rhwng Gwynedd a Môn gogyfer â chyflawni gofynion y Cynllun Datblygu Lleol, gan roi sylw i'r materion canlynol:

a) Beth oedd yr achos busnes dros uno Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn?
b) Pa drefniadau ymgysylltu roddwyd ar waith wrth gynllunio i uno Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn, ac a oedd y trefniadau hynny yn addas i bwrpas?
c) A lwyddwyd i adnabod yr holl fudd-ddeiliad ar gyfer yr ymgysylltu?
d) A roddwyd ystyriaeth briodol i rwystrau a adnabuwyd i uno a sut i'w datrys?
e) Pa adborth a gafwyd ar effeithiolrwydd yr uno gan fudd-ddeiliad allweddol?
f) Pa lwyddiannau a gwersi sydd i'w dysgu o'r uno?
g) A oes enghreifftiau o arfer dda y gellir eu trosglwyddo i drefniadau uno eraill yn y dyfodol?
h) Pa effaith a dylanwad os o gwbl gafodd yr uno ar amodau gwaith y gweithlu sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â Chynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn?
i) Pa mor fodlon yw trigolion Gwynedd (a Môn) gyda'r trefniadau newydd ar gyfer darparu'r Cynllun Datblygu Lleol?

**Cyfnod yr Ymchwiliad**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr ymchwiliad | Medi 2014 |
| Diwedd yr ymchwiliad | Mawrth 2015 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | Mawrth 2015 |
| Adroddiad oddi wrth craffu at y Weithrediaeth | Ebrill 2015 |

**Rhaglen**

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd.
Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd.

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet ar ymateb y Cyngor i Gomisiwn Williams a'r Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol. |
| 2 | Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a'r Pennaeth Rheoleiddio ar yr achos busnes dros uno Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn. |
| 3 | Sesiwn Gynllunio<br>• Y Grŵp Ymchwiliad i ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma<br>• Cytuno ar gwestiynau ac amserlen ymweliadau â swyddogion perthnasol yn y Cyngor. |
| 4 | Sesiynau cwestiynu a thrafod gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. |
| 5 | Ystyried y trefniadau ymgysylltu a roddwyd ar waith wrth uno Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn, yng ngoleuni canllawiau ymgysylltu *Cyfranogiad Cymru*. |
| 6 | Sesiwn Gynllunio<br>Ystyried y wybodaeth a gafwyd hyd yma, a chynllunio gweddill y rhaglen waith. |
| 7. | Grwpiau Ffocws gyda budd-ddeiliaid allweddol |
| 8. | Sesiwn Gynllunio<br>Ystyried y wybodaeth a gafwyd hyd yma, a chynllunio gweddill y rhaglen waith. |
| 9 | Sesiwn cwestiynu a thrafod y prif ganfyddiadau gyda'r Aelod Cabinet Cynllunio. |
| 10 | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad |

| | |
|---|---|
| 11 | Llunio’r adroddiad |
| 12 | Pwyllgor Craffu Corfforaethol i ystyried yr adroddiad drafft a’r argymhellion i’r Aelod Cabinet |